Arloesi

# WILTAN LTD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Dyfarnu cyllid hanfodol i gwmni gweithgynhyrchu o Dorfaen er mwyn ennill mantais gystadleuol




Mae cwmni gweithgynhyrchu o Bont-y-pŵl wedi sicrhau cyllid o £50,000 gan Lywodraeth Cymru i brynu dau beiriant arbenigol a fydd yn cynyddu cynhyrchiant, ac yn rhoi mantais gystadleuol i'r busnes mewn amodau marchnad anodd yn ogystal â lleihau ei ôl troed carbon.

Cafodd Wiltan Ltd, cwmni sy'n gweithgynhyrchu ac yn cyflenwi creiddiau stribed wedi'i weindio mewn dur trydanol, gyllid ar gyfer y Rhaglen Gwella Cynhyrchiant Busnes, a ariannwyd yn flaenorol gan y Cymoedd Technoleg. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar greu mannau technoleg o safon fyd-eang gyda chwmnïau gweithgynhyrchu Cymru drwy gynyddu effeithlonrwydd, cynaliadwyedd a chynhyrchiant, ac ehangu i farchnadoedd newydd.

Mae'r cwmni o Bont-y-pŵl yn bodoli ers 1985, ond mae'r busnes wedi gorfod ymdopi â'r straen diweddar ar ddiwydiant dur y Deyrnas Unedig o ganlyniad i gystadleuaeth ryngwladol o ran prisiau, newid yn yr hinsawdd, a phrisiau ynni uchel.

**Amserlen y Prosiect:**

- **Gorffennaf 2021**: Cais Arloesedd SMART ar gyfer Asesu Cynhyrchiant.
- **Medi 2021**: Cytuno i'r cais Arloesedd SMART ar gyfer Asesu Cynhyrchiant. Nododd y broses Asesu ac Adrodd gynlluniau i brynu dau beiriant torchi cwbl awtomatig a fyddai'n cynyddu cynhyrchiant o 130 i 200-300 craidd y dydd heb fod angen i weithredwr fod yn bresennol am yr holl amser, a fyddai'n galluogi'r cwmni i ddyblu effeithlonrwydd.
- **Hydref 2021**: Gwnaed cais am Grant Prosiect Gwella Cynhyrchiant Busnes y Cymoedd Technoleg ac fe'i dyfarnwyd. Gosodwyd archeb am beiriant newydd.
- **Ionawr 2022**: Peiriannau newydd yn cyrraedd ac yn cael eu gosod. Mynychu hyfforddiant. Y grant yn cael ei hawlio a'i dalu.

Ar ôl cynnal asesiad Arloesedd SMART am gynhyrchiant ac effeithlonrwydd cost rhai o'r hen beiriannau sy'n dal i gael eu defnyddio, daeth y cwmni i'r casgliad nad oedd rhai ohonynt yn bodloni'r safon ofynnol, a bod eu huwchraddio'n hanfodol os oeddent am fod mewn sefyllfa iach yn y farchnad a chynnal safonau cynaliadwyedd disgwyliedig.

Defnyddiodd y cwmni gyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu dau beiriant weindio craidd toroid awtomataidd a fydd, fel rhan o raglen fuddsoddi ehangach, yn helpu i gynyddu cynhyrchiant a chystadleurwydd y cwmni mewn marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd y busnes yn gallu cynyddu ei elw drwy gynhyrchu creiddiau gwerth canolig isel yn gyflym ac yn gyson, gan ganiatáu i'r tîm cynhyrchu ganolbwyntio ar brosiectau gwerth uwch.

Meddai Alison Itani, cyfarwyddwr yn Wiltan Ltd: "Cafodd y diwydiant gweithgynhyrchu ergyd ddwbl pan darodd Covid a Brexit mewn cyfnod byr iawn o amser, a bu'n rhaid i lawer o'r sefydliadau yn ein cadwyn gyflenwi gau, gan olygu bod yn rhaid i ni ddod o hyd i ddeunydd crai o Ewrop a ledled y byd, a brofodd yn anodd ac yn ddrud.

"Ein prif reswm dros wneud cais am y cyllid yma oedd er mwyn gwneud ein dulliau gweithio'n fwy cost effeithiol, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd gynyddol gythryblus, ac roedden ni'n gwybod y byddai'r peiriannau newydd yma'n ein helpu i gynnal sefyllfa sefydlog yn y farchnad a gyda'n cwsmeriaid."

Mae'r offer newydd wedi galluogi'r busnes i gynyddu ei gynhyrchiant a lleihau gorbenion, cynnig prisiau mwy cystadleuol yn y farchnad a chynnal perthynas gref â chwsmeriaid. Mae effeithlonrwydd ynni'r peiriannau nid yn unig wedi ychwanegu gwerth economaidd at waith y cwmni, ond hefyd yn dileu gwastraff ynni ac yn lleihau ei ôl troed carbon.

Mewn hinsawdd economaidd mor anodd, lle mae llawer o gwmnïau gweithgynhyrchu wedi gorfod cau neu ddiswyddo staff, mae'r peiriannau sydd wedi'u huwchraddio wedi caniatáu i gwmni Wiltan nid yn unig gynnal ei gorff o staff, ond hefyd uwchsgilio staff wrth ddefnyddio'r peiriannau newydd.

Meddai Alison: "Roedd yr holl broses ariannu wedi'i rheoli'n dda iawn ac yn hawdd i'w llywio, ac mae'r cyllid wedi bod yn hanfodol i gynaliadwyedd cwmni Wiltan. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y gefnogaeth; bydd yn drawsnewidiol i'r busnes."

Busnes Cymru | Business Wales

**I gael gwybod mwy am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:**

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/cy

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

WG46667 / © Hawlfraint y Goron 2023 OGL